

Llety brys ar gyfer gweithwyr gofal

Yn ddiweddar, rydym wedi cael ymholiadau ynghylch rhoi llety i weithwyr gofal mewn gwasanaethau gofal i ddarparu llety brys fel mesur dros dro.

Rydym yn darparu'r cyngor canlynol.

Er nad oes darpariaeth benodol yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ('y Rheoliadau') i atal staff rhag aros neu fyw mewn gwasanaeth cartref gofal, dylai AGC fod yn fodlon na fydd y trefniadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n byw yno neu'n defnyddio'r gwasanaeth, ac y byddant yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Byddem yn gweld hwn yn fesur tymor byr er mwyn sicrhau staffio.

Byddai angen sicrwydd arnom ar y canlynol:

- pa mor hir y mae'r darparwr yn rhagweld y bydd y mesur dros dro / brys yn para;
- goblygiadau ymarferol, ac unrhyw oblygiadau andwyol i bobl sy'n byw yno neu'n defnyddio'r gwasanaeth, os na ellir ynysu staff o fewn y priif gartref gofal (e.e. os yw staff wedi'u gwasgaru ar draws yr adeilad); ac
- os bydd llety yn y cartref gofal yn amrywio o ychydig ddyddiau i ychydig wythnosau, a fwriedir i staff symud o gwmpas gwasanaethau gwahanol y darparwr?

Rhaid i'r safle fod â chyfleusterau addas ar gyfer staff, y mae'n rhaid iddynt gynnwys cyfleusterau storio addas, a, lle y bo'n briodol, llety cysgu a chyfleusterau newid addas (Rheoliad 44(11)). Amlinellwch drefniadau cysgu presennol y staff, os o gwbl, a gwnewch gymhariaeth â'r hyn a gynigir, er mwyn cael sicrwydd y bydd y trefniadau newydd yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon.

A yw'r darparwr wedi ymgynghori â phobl sy'n byw yno neu'n defnyddio'r gwasanaeth ac unrhyw gynrychiolwyr ynghylch y trefniadau arfaethedig?

A yw'r darparwr wedi cynnal diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg effeithiol i sicrhau na fydd y trefniadau arfaethedig yn cam-fanteisio ar staff sy'n aros/byw yn y cartref?

Mae cwestiynau posibl yn cynnwys y canlynol:

- Sut bydd y darparwr yn sicrhau bod amser personol ac amser gwaith staff yn cael eu gwahanu?
- A fydd disgwyl i staff fod ar alwad os ydynt yn byw yn y lleoliad?
- A fydd yr holl staff sy'n byw yng "Nghartref A" yn gweithio yng "Nghartref A", neu a gynigir y gallai staff sy'n byw yng "Nghartref A" weithio mewn cartrefi eraill hefyd?
- A fydd ymwelwyr y staff yn cael mynd i mewn i'r cartref gofal neu aros ynddo?
- Faint o weithwyr fydd yn aros neu'n byw mewn un ystafell?
- Ble gallan nhw gael cawod / bath?
- Ble byddan nhw'n bwyta eu prydau pan nad ydyn nhw'n gweithio?
- Mae'r darparwr wedi nodi y bydd llety'n ddi-rent – a fydd y darparwr yn darparu bwyd ac, os felly, a fydd hwn am ddim neu'n cael ei dynnu o'u cyflog?

- A oes angen cofrestru'r trefniant hwn gydag adran dai'r awdurdod lleol ac a fu ymgynghoriad â chomisiynwyr y gwasanaeth?